

2014 Rhif 1057 (Cy. 97)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 38, Cyfnewidfa Margam
i Gyffordd 39, Y Groes, Castell-
nedd Port Talbot) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed 3 Ebrill 2014

Yn dod i rym 10 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – Abergwaun (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Ebrill 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 38, Cyfnewidfa Margam i Gyffordd 39, Y Groes, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 10 Ebrill 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw'r darnau o draffordd yr M4 rhwng

Cyffordd 38, Cyfnewidfa Margam a Chyffordd 39, Y Groes ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Ebrill 2014

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1. Y darn o gerbyttfordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam.

2. Y darn o gerbyttfordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39, Y Groes.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam.